# TRAWSNEWID TREFI
# - GRANT EIDDO CANOL TREF

## Meini prawf a Chanllaw

***This form is also available in English***

# ADRAN A – FFACTORAU ALLWEDDOL

## Cyflwyniad:

Mae'r Grant Datblygu Eiddo Masnachol (GDEM), Grant Eiddo Canol Tref (GECT) a'r Benthyciad Canol Tref (BCT) yn gynlluniau a gynigir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi adfywiad canol trefi a chyfrannu at Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i gynnig buddsoddiad cyfalaf i adfywio eiddo masnachol yng nghanol nifer o'n trefi.

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at fentrau bach a chanolig (sy'n cyflogi hyd at 250 o bobl) gydag un ai trosiant o lai na £45 miliwn neu fantolen lai na £40 miliwn.

Mae'r cynllun yn cynnig cyllid o **hyd at 70%** ar wariant cyfalaf ar gyfer prosiectau, gyda dyfarniadau o £3,000 hyd at £15,000 yn cael eu cynnig.

*Dylid nodi hefyd mai isafswm cost eitem unigol yw £100.*

Mae'r cynllun grant uwch hwn yn ddewisol a bydd yn cael ei weithredu ar sail gyntaf i'r felin yn dibynnu ar argaeledd arian a'r gallu i gwblhau'r prosiect o fewn yr amserlen fanwl. Os dyfernir grant, bydd yn rhaid i'r **HOLL** waith gael ei gwblhau a'i dderbynebu cyn mis Mawrth y flwyddyn ariannol honno.

Bydd yr holl gynigion o gyllid yn amodol ar gymeradwyaeth gan Banel Adolygu Grantiau o'r ceisiadau. Mae hwn yn grant dewisol lle bydd penderfyniad y Panel Adolygu'n un terfynol. Nid oes proses apelio.

Bydd dyddiad cau ceisiadau am grant ym mis Chwefror 2026 neu ar amser lle fydd y gronfa wedi'i ymrwymo'n gyfan gwbl, os yw'n gynt.

Wedi cadarnhau'r dyfarniad bydd yn rhaid i'r holl gynigion fod wedi'u derbyn a'r arian wedi'i hawlio erbyn 18 Mawrth 2026 fan bellaf.

Ni fydd estyniad i'r dyddiad cau yma. Fel cronfa amser cyfyngedig (gyfan gwbl neu'n rhannol) daw pob dyfarniad na hawlir i ben yn awtomatig.

## Ffactorau Cymhwyster

Mae'r Grant yn cynnig cefnogaeth i feddianwyr a pherchnogion adeiladau manwerthu a masnachol i wella blaen adeiladau.

Mi fydd yn ofynnol i ddeiliaid prydles i ddarparu tystiolaeth o ganiatâd ysgrifenedig eu landlord ar gyfer y gwaith arfaethedig.

Anogir ceisiadau ar hyn o bryd ar gyfer eiddo masnachol yn yr ardal siopa a/neu ardaloedd cadwraeth Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy, Cyffordd Llandudno, Deganwy, Llandudno, Bae Penrhyn, Rhos on Sea, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Llanrwst, Betws y Coed, Abergele a Phensarn, Bae Kinmel, a Towyn. Gellir ystyried canolfannau masnachol eraill fel eithriadau.

Mae'n rhaid i'r gwaith arfaethedig ddisgyn o fewn o leiaf un o'r categorïau canlynol:

- Atgyweiriadau a gwelliannau cosmetig i du blaen adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.
- Ailosod nodweddion pensaernïol neu dreftadaeth sydd wedi'u colli neu eu difrodi sy'n cyfrannu at gymeriad hanesyddol ac ymddangosiad yr ardal.

**Gwaith Cymwys:**

Prosiectau sy'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)

- Blaen siopau gan gynnwys gwelliannau strwythurol mân a chosmetig
- Gwella ffenestri arddangos
- Gwella arwyddion
- Ffenestri a drysau ar gyfer prosiectau mawr
- Goleuadau allanol
- Landeri a phibellau dŵr
- Rendro, glanhau ac atgyweirio cerrig, ail-bwyntio

Pan fydd gan eiddo gymysgedd o ddefnyddiau preswyl a masnachol, gellir ystyried gwneud rhywfaint o waith i du blaen yr eiddo preswyl yn ôl disgresiwn y panel. Fodd bynnag, byddai ceisiadau o'r fath **ond yn gymwys i gael yr arian fel rhan o becyn cynhwysfawr o welliannau allanol** i ardal fasnachol yr adeilad.

Anogir arwyddion blaen siop dwyieithog fel ffordd o ddathlu amrywiaeth ieithyddol, ond nid yw'n ofyniad er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant.

**Gwaith / Adeiladau nad ydynt yn denu cymorth grant**

- Gwaith mewnol
- Ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer eiddo sy'n cynnig llety dros nos e.e. fflatiau, gwestai, Airbnb, llety gwely a brecwast ac ati.

- Nid yw gwaith i ddarparu / gwella eiddo ar gyfer eiddo preswyl **yn unig** yn gymwys
- Ni ellir defnyddio’r grant ar gyfer eiddo sy’n cefnogi’r sectorau Gamblo, Tybaco, Cynhyrchu Arfau a Bwledi neu unrhyw sectorau sy'n arwain at effaith sylweddol ar yr amgylchedd neu sy'n foesegol neu'n foesol ddadleuol.
- Gweithgareddau sydd eisoes wedi dechrau (ni ellir prynu nac archebu eitemau cyn cymeradwyo’r grant).
- Gwaith neu brosiectau i gyflawni gofynion statudol.
- Ceisiadau ar gyfer defnyddiau yn unig lle mae’r perchennog / preswyliwr yn ymgymryd â’r gwaith ei hun, oni bai eu bod yn sefydledig yn y maes masnachu perthnasol.

Mewn achosion lle mae caniatâd cynllunio yn y broses ond heb ei dderbyn eto, gellir ystyried ceisiadau ond byddai unrhyw gynnig cyllid yn amodol ar dderbyn y cymeradwyaethau / caniatâd perthnasol.

Os nad yw ar gael adeg y cynnig, bydd angen tystiolaeth o gyflwyno unrhyw gais cynllunio o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y cynnig cyllid. Gallai methu â gwneud hynny arwain at dynnu'r cynnig cyllid yn ôl.

Yn amodol ar natur y prosiect, os na cheir y caniatâd perthnasol o fewn cyfnod yr ydym yn ei ystyried yn rhesymol i sicrhau y gellir cwblhau'r prosiect erbyn Mawrth 2026, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig cyllid yn ôl.

## Ffactorau Hanfodol i’w Nodi

*Dyfyniadau*

Amcangyfrifon / dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau / gwaith prosiect (2 dyfynbris eitem ar gyfer eitemau / gwaith sy’n dod at £10,000, 3 dyfynbris eitem ar gyfer unrhyw eitem / gwaith sy’n fwy na £10,000).

Disgwyliwn y bydd y gwaith yn cael eu cwblhau gan fasnachwr neu gwmni sefydledig addas. Byddwn yn ceisio sicrhau bod pob cyflenwr a ddefnyddir gan dderbynwyr grantiau yn gweithio'n gynaliadwy a, lle bo'n bosibl, (wedi'i gydbwyso â Gwerth am Arian) yn annog cyflenwadau lleol a'r effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â hynny.

Mae’n rhaid i bob gwaith proffesiynol gael ei wneud gan gontractwyr cymwys.

Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gysylltu ag unrhyw un o’r busnesau sy’n cyflwyno dyfynbrisiau mewn cyswllt â’ch cais os oes angen eglurder pellach.

Ni chaniateir gwaith prosiect a gaiff ei wneud gan yr ymgeisydd ei hun neu

unigolyn a gaiff ei gyflogi'n uniongyrchol gan yr ymgeisydd ac ni fydd gwaith o'r fath yn gymwys am gyllid.

Mae'n rhaid hysbysu'r Cyngor o unrhyw gyswllt personol, teuluol neu fusnes rhyngoch chi/eich asiant ac unrhyw gyflenwr neu gontractwr.

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio contractwr sydd â chysylltiad personol neu ariannol â chi neu eich busnes, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn. Os oes cysylltiad ariannol, bydd gofyn i chi sicrhau bod y costau yn cael eu codi gan y contractwr ac nad ydynt yn cynnwys maint yr elw ar ddeunyddiau a llafur. Ar y cam hawlio, mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu gwiriad annibynnol o'r costau gan Syrfëwr Meintiau cymwys.

Mae Cyngor Gwynedd yn dal disgresiwn absoliwt o ran telerau, cymhwysedd a phenderfyniadau dyfarniadau grant a hefyd yn cadw'r hawl i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg.

Dylai'r dyfynbrisiau ddilyn yr un templed a, lle bo hynny'n berthnasol, dylid eu rhannu er mwyn dangos costau elfennau gwaith unigol e.e. costau offer / llafur / costau gosod.

Mae disgwyl i chi sicrhau'r gwerth gorau drwy ddefnyddio eich arferion caffael masnachol arferol megis cael dyfynbrisiau cystadleuol gan gyflenwyr.

Dylech gynnwys copïau o'r dyfynbrisiau rydych wedi'u dewis gyda'ch cais i ddangos rhesymoldeb eich costau disgwyliedig.

*<u>Pryniant Arian Parod</u>*
Ni thelir unrhyw gyllid lle ymgymerwyd â thrafodion arian parod.

*<u>Blaendaliadau</u>*
Nid yw hawliadau ar gyfer blaendaliadau am wasanaethau neu ddeunyddiau ar eu pen eu hun yn gymwys. Dim ond camau gwaith sydd wedi'u cwblhau y gellir hawlio amdanynt.

*<u>Pryniant gyda chardiau credyd</u>*
Lle gwnaed taliadau gyda chardiau credyd, bydd angen tystiolaeth bod taliadau llawn wedi'u gwneud i gwmni'r cerdyn credyd.

*<u>Ôl-weithredu</u>*
Ni thelir unrhyw gyllid ar unrhyw wariant a wneir cyn y dyddiad y cadarnhawyd y caniatâd.

Mae ein holl gyllid ar sail talu h.y. rhaid i'r hawlydd wario'r arian yn gyntaf ac yna maent yn hawlio'r swm a gytunwyd yn ôl fel y nodwyd yn y llythyr cynnig grant.

Noder y gallai gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith i hawliadau gael eu prosesu ac i'r taliad cyrraedd eich cyfrif.

# ADRAN B – PROSES GRANTIAU

## Gwneud Cais

*Cais Llawn*

Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i llenwi'n iawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfrifon blynyddol diweddaraf
- Cadarnhad o gyllid cyfatebol, naill ai trwy gyflwyno'r uchod, cyfriflen cyfrif cynilion, neu gytundeb benthyciad
- Cadarnhad o'r Caniatâd Cynllunio, Cadwraeth a / neu'r Rheoliadau Adeiladu (os yn berthnasol)
- Prawf o berchnogaeth / prydles yn ogystal â chaniatâd y landlord
- Amcangyfrifon / dyfynbrisiau gwreiddiol ar gyfer y prosiect
- Holl Ofynion Cyfreithiol Statudol ar gyfer y Busnes (os yw'n berthnasol)
- Cadarnhad cofrestru gyda Chyllid a Thollau EM
- Ffotograffau o ardaloedd perthnasol yr adeilad cyn i'r gwaith cael eu hymgymryd

**Os nad yw'r busnes wedi bod yn masnachu yn ddigon hir i gyfrifon fod ar gael, bydd angen o leiaf 3 mis o ddatganiadau banc i ddangos tystiolaeth o fasnachu*

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth.

Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol i gefnogi cais.

Os bydd unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, byddwn yn cysylltu â chi.

Gallai methiant i gydymffurfio oedi'r penderfyniad, ni fyddwn yn prosesu unrhyw geisiadau anghyflawn.

*Fe'ch atgoffir ar hyn o bryd i beidio ag ymgymryd ag unrhyw waith neu wariant ar y prosiect a ariennir gan grant nes bod penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ar y*

*cais a'ch bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o hyn.*

*Lle gofynnir i chi wneud hynny, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i egluro'r prosiect, a'r gwaith yr ydych yn bwriadu ymgymryd*

Yn benodol, dylech chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- **Ni thelir unrhyw gyllid ar wariant ôl-weithredol**
- **Ni delir unrhyw arian ble talwyd ag arian parod**
- **Ni fydd arian yn cael ei dalu mewn perthynas â blaendaliadau am nwyddau neu wasanaethau**

**CYMORTH GWLADWRIAETHOL/ RHEOLI CYMHORTHDAL**

Bydd y grantiau yn cael eu dyfarnu dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA)
Mae Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn caniatáu awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel (hyd at £315,000)

Ni ellir rhoi MFA ychwanegol i fuddiolwr sydd wedi cyrraedd eu trothwy MFA yn barod.

Fel rhan o'r broses cais, bydd arnoch angen:
- Datgan eich dealltwriaeth bod y cyllid a gynigir yn gymorthdal dan MFA
- Datgan trothwy MFA a nodwyd yn adran 36(1) y Ddeddf yn fwy na'r fenter sy'n derbyn y cymorth arfaethedig.

Wrth wneud eich datganiad, dylech ystyried bod holl gymhorthdal (gan gynnwys grantiau) a ddaeth i law drwy'r cynlluniau canlynol yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol.

De Minimis, 'Special Drawing Rights' (SDR), De Minimis y DU, 'Small Amounts of Financial Assistance' (SAFA, yr enw presennol), Small Amounts of Funding Exemption (SAFE) a 'Minimal Financial Assistance' (MFA).

Gallai enghreifftiau gynnwys grantiau cysylltiedig Ardrethi Annomestig, Cronfa Cadernid Economaidd, Grant Cychwyn, Cronfa Gweithwyr Llawrydd, Cronfa Awdurdod Lleol yn ôl Disgresiwn, Grant Cymorth i Fusnesau Conwy.

## Prosesu Eich Cais

Ar ôl cael eich ffurflen gais lawn bydd y Cyngor yn: -

- Gwirio eich bod wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol, a bod yr holl fanylion a ddarperir mewn trefn ac os na, yn rhoi gwybod i chi pa

wybodaeth bellach sy'n ofynnol.

- fel rhan o'r broses ymgeisio mi fydd gan CBSC hawl i ymweld â'r safle
- Cyfeirio'r cais at y Panel Grantiau ar gyfer gwneud penderfyniad. *Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar deilyngdod, ac yn unol â nodau ac amcanion y* cynllun, *ac yn ddibynnol ar fod arian ar gael.*

## Rhoi gwybod am y penderfyniad

Cewch wybod ar ffurf e-bost beth fydd y penderfyniad. Os byddwch yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o'r swm a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad. Wedi'i atodi i'r llythyr bydd y contract *'Telerau ac Amodau'* y bydd yn rhaid i chi gadw ato. Rhaid *llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon o fewn 28 diwrnod* o gael y cynnig cyllid.

## Hawlio

**Ni fyddem yn prosesu hawliadau cyn derbyn yr holl ddogfennaeth ategol, e.e telerau ac amodau arwyddedig, tystiolaeth o ganiatâd cynllunio, adeilad rhestredig / cadwraeth ayyb.**

Fel arfer byddwn yn gwneud hyn mewn 1 rhandaliad yn ddibynnol ar y prosiect a'i broffil gwario.

Yn dilyn cadarnhad o ddyfarniad bydd rhaid derbyn holl gynigion ac wedi'u tynnu dim hwyrach na 31 Mawrth 2026.

**Fel cronfa amser cyfyngedig, bydd yr holl gynigion grant (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) na chawsant eu tynnu yn unol â'r uchod yn dod i ben yn awtomatig.**

Wrth gyflwyno hawliad, bydd angen prawf o wariant. Rhaid i hyn gynnwys:

- Pob cyfrif / anfoneb berthnasol *(rhaid i anfonebau beidio â chynnwys dyddiad sy'n bellach yn ôl na dyddiad y llythyr / contract cynnig wedi'i lofnodi a'i ddychwelyd).*
- Bydd hefyd angen copïau o gyfriflenni banc cyfatebol yn dangos y taliadau yn mynd allan o gyfrifon y cwmni. Lle gwnaed taliadau gyda chardiau credyd, bydd angen tystiolaeth bod taliadau llawn wedi'u gwneud i gwmni'r cerdyn credyd.

*Ni dderbynnir unrhyw drafodion arian parod fel rhan o hawliad.*

Bydd y Cyngor yn penderfynu a fydd y gweithgaredd y dyfarnwyd y cyllid ar ei gyfer (gwaith a wnaed neu bryniannau a wnaed) wedi'i gyflawni'n llawn, yn unol â'r cynnig a wnaed yn y cais, ac unrhyw amodau sydd ynghlwm i'r gymeradwyaeth. Gellir gwneud hyn drwy archwiliad neu unrhyw ffordd arall a bennir gan y Cyngor.

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy na'i swyddogion, neu'r asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, yn gyfrifol am unrhyw grefftwaith gwael ac nid ydynt yn darparu unrhyw warant.  Ni ellir rhyddhau unrhyw gwariant heb i'r Cyngor cytuno bod y safonau yma wedi eu cyflawni.

Pan fydd yr uchod i gyd wedi'i gwblhau, bydd y Cyngor yn rhyddhau'r cyllid i'ch Cyfrif Banc Busnes drwy daliad BACS.

## Monitro ar ôl Dyfarniad

Yn ystod y cyfnod cydymffurfio â chyllid 3 blynedd, gall y Cyngor, neu ei asiantau, ymweld â'ch safle er mwyn cynnal archwiliad monitro o'r eiddo.

Am 3 mlynedd ar ôl dyddiad talu'r grant mae'n rhaid i'r ymgeisydd gadw'r eiddo a'r gwaith a dalwyd amdano gyda chymorth grant mewn cyflwr da.

Bydd rhaid i bob ymgeisydd llwyddiannus gymryd rhan mewn adolygiad monitro yn ôl y gofyn.

Mae'r awdurdod lleol neu'r Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i osod arwydd parhaol / dros dro ar yr eiddo, mewn lleoliad i'w gytuno rhwng yr awdurdod lleol a'r ymgeisydd, sy'n datgan y cymorth a roddwyd ar gyfer y gwaith. Bydd yr arwydd / baner yn cael ei ddarparu gan CBSC ar ei gost ei hun.

## Manylion Cyswllt

| | |
|---|---|
| CONWY<br>CYNGOR BWRDEISTREF SIROL<br>COUNTY BOROUGH COUNCIL | *Katie Minton-Rowlands*<br>Swyddog Prosiect Datblygu ac Adfywio / Development and Regeneration Project Officer<br>Gwasanaeth Economi a Diwylliant / Economy and Culture Service<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol CONWY County Borough Council<br>✉ katie.minton-rowlands3@conwy.gov.uk<br>☎ 01492 577329 |